

## Crynodeb Gweithredol

Yn unol â Safon 110 o Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol iddo gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd yn nodi –

- (a) i ba raddau y gallwch gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
- (b) y camau rydych chi'n bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
- (c) Amserlen ar gyfer y camau gweithredu yr ydych wedi manylu arnynt yn (b).

Gall y Bwrdd Iechyd nodi bod cynnydd wedi bod ers cyhoeddi'r polisi blaenorol a gellir dod o hyd i grynodeb yn nes ymlaen yn y polisi hwn. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio adeiladu ar y sylfeini a osodwyd drwy gydol y pum mlynedd blaenorol.

Oherwydd y Canlyniadau a'r Mesurau a nodwyd yn y polisi blaenorol, mae gan y Bwrdd Iechyd syniad llawer cliriach o faint o'i staff sy'n gallu siarad Cymraeg, ble mae'r aelodau staff hynny'n gweithio, pa adrannau neu arbenigeddau sydd â diffyg darpariaeth yn Gymraeg a'r rhai sydd mewn gwell sefyllfa i gefnogi staff i ddysgu Cymraeg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn credu ei bod yn berthnasol nodi bod y cyfnod a gwmpaswyd gan y polisi blaenorol yn anodd a bod y sefyllfa'n parhau felly. Rhoddodd pandemig COVID-19 yr holl wasanaethau a ddarperir gan GIG Cymru dan bwysau dwys (ac rydym yn dal i weld effaith hynny) a rhoddwyd ffocws llawn ar sicrhau bod anghenion clinigol cleifion yn cael eu diwallu. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd, a GIG Cymru yn ei gyfarwydd, yn parhau i ddioddef pwysau ariannol. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am ddefnyddio hyn fel cyfiawnhad pam na wnaed mwy o gynnydd yn ystod y 5 mlynedd blaenorol.

Fel yn achos y polisi blaenorol, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu'r cynnig o ymgynghoriadau clinigol Cymraeg mewn gwasanaethau y mae'r 'grwpiau agored i niwed' a nodir yn y Strategaeth 'Mwy na Geiriau' yn cael mynediad iddynt. Dyma'r grwpiau:

- Plant a Phobl ifanc
- Pobl Hŷn
- Pobl ag Anableddau Dysgu

- Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Pobl sy'n byw â Dementia
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Strôc
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd

Bydd ffocws penodol yn cael ei roi ar wasanaethau, y mae'r 'grwpiau agored i niwed' a restrir uchod yn cael mynediad iddynt, lle mae asesiadau lle defnyddir ail iaith yn fwy tebygol o achosi anfanteision i ddefnyddiwr y Gwasanaeth a'r Gweithiwr Proffesiynol Meddygol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Asesiadau Therapi Iaith a Lleferydd
- Asesiadau Iechyd Meddwl
- Asesiadau Anableddau Dysgu
- Asesiadau Ymwelwyr Iechyd

Darperir dadansoddiad o brif amcan(ion) pob blwyddyn isod:

#### Blwyddyn 1

- Asesu adrannau sy'n cynnal asesiadau rheolaidd er mwyn canolbwyntio arnynt yn y cynllun.
- Casglu data gan ddefnyddio'r fethodoleg(au) fwyaf priodol.
- Dadansoddi data a phenderfynu pa adran i ganolbwyntio arni.

#### Blwyddyn 2

- Sefydlu targedau ar gyfer Blwyddyn 3 mewn cytundeb â'r adran.

#### Blwyddyn 3

- Asesu targedau a osodwyd ym mlwyddyn 2.
- Adeiladu ar y cynnydd a wnaed drwy osod targedau mwy uchelgeisiol.
- Cynnal adolygiad blwyddyn 3 a'i gyhoeddi.
- Dechrau'r un dull gydag adran wahanol (o fewn yr un meini prawf a nodwyd) gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r blynyddoedd blaenorol.

Blwyddyn 4 a 5

- Targedau i'w penderfynu yn dibynnu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

## Cyflwyniad a Chefndir

Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan y Senedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd) a chafodd gydsyniad brenhinol ar 09 Chwefror 2011.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg, yng Nghymru, gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gwnaeth y Mesur hefyd:

- Creu'r weithdrefn ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf Safonau'r Gymraeg ("y Safonau").
- Sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i graffu ar gydymffurfiaeth.
- Rhoi pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw honiadau o ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.

Paratowyd y ddogfen hon yn unol â'r gofynion a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd o dan Safonau'r Gymraeg, Adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu Safonau, ac mae Adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod Safon yn gymwys i unigolyn penodol drwy awdurdodi'r Comisiynydd i ddyroddi hysbysiad cydymffurfio rheoleiddiol.

Gosodwyd hysbysiad cydymffurfio rheoleiddiol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 30 Tachwedd 2018, ar ffurf Safonau.

Mae Safon 110 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun Cymraeg corfforaethol 5 mlynedd, sy'n nodi i ba raddau y mae'n gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu ei allu i gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg.

## Trosolwg ac asesiad o [Gynllun Gweithredu Safon 110 \(2019-2024\) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan](#)

Roedd y cynllun gweithredu blaenorol a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd o dan Safon 110 yn amlinellu nifer o Ganlyniadau a Mesurau i gynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.

Isod mae diweddariad terfynol o Gynllun Gweithredu 2019-2024.

### Deilliant 1

#### Sefydlu llinell sylfaen glir o sgiliau Cymraeg staff.

- Mae cyfradd cydymffurfio ar gyfer cwblhau Cymwyseddau Cymraeg unigol ar y Cofnod Staff Electronig wedi cynyddu o 30% i 81% dros gyfnod y Cynllun Gweithredu.
- Mae'r cynnig hyfforddiant Cymraeg wedi'i symleiddio a'i amrywio, ac rydym wedi gweld cynnydd graddol yn y nifer sy'n ymgymryd â'r cynnig dros gyfnod y Cynllun Gweithredu.

### Deilliant 2

**Bydd camau gweithredu gan adrannau a staff y Bwrdd Iechyd yn golygu bod y sefydliad yn rhoi 'Cynnig Rhagweithiol' o Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei nodi a'i barchu.**

- Mae wedi bod yn anodd mesur yn gywir faint o bosteri Cynnig Rhagweithiol a arddangosir gan adrannau ond mae adnoddau ar gael am ddim i staff ac adrannau i sicrhau gwelededd.
- Mae cwrs Ymwybyddiaeth Iaith ar-lein GIG Cymru gyfan wedi'i ddatblygu ar ESR ac mae'n orfodol i bob aelod o staff ei gwblhau. Ar hyn o bryd, 75% yw lefel cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd.
- Mae cynnydd wedi bod yn y gyfradd cyfeirio at yr uned gyfieithu.

### Deilliant 3

**Bydd camau gweithredu gan adrannau a staff y Bwrdd Iechyd yn golygu y bydd mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael cynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg.**

- Mae hyn wedi bod yn anodd ei fesur. Fodd bynnag, dyma fydd y prif sbardun yng Nghynllun Gweithredu 2024-2029.
- Rydym yn gofyn yn rheolaidd am adborth gan gleifion a gofalwyr ynghylch y ddarpariaeth gofal yn Gymraeg. Mae'r adborth hwn yn cael ei gynnwys mewn sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth gyda staff y Bwrdd Iechyd.

#### **Deilliant 4**

**Buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gynyddu'r cynnig o ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.**

- Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cyflogi Uwch Gyfieithydd ac wedi ailddatblygu a symleiddio ei broses gyfieithu.
- Gweler crynodeb o Ddeilliant 1.
- Gweler crynodeb o Ddeilliant 2.

Hoffai'r Bwrdd Iechyd nodi'r cynnydd y mae wedi'i wneud dros gyfnod y Cynllun Gweithredu blaenorol ond gan nodi bod eu gwaith yn parhau i sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.

## **Cynllun gweithredu 5 mlynedd (Arfaethedig) ar gyfer cynyddu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg**

### **Themâu ac Amserlenni**

Mae'r asesiad o gynllun gweithredu 2019-2024 wedi amlinellu meysydd thematig penodol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer y cyfnod 2025-2030. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Recriwtio ac uwchsgilio (gan gynnwys ymwybyddiaeth) staff presennol, a staff newydd;
- Defnydd effeithlon, a rhwyddineb mynediad at dechnoleg, systemau a data; a
- 'Normaleiddio' Cymraeg ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaeth

Bydd y ffactorau sylfaenol a phenderfynol yn cael eu casglu a'u dadansoddi o fewn blwyddyn 1 fan bellaf.

Bydd targedau cydymffurfio (megis % cwblhau) yn cael eu trafod a'u cytuno gydag adrannau unigol. Dyna pam eu bod wedi'u hepgor o'r tablau isod ac yr adroddir arnynt yn ystod yr adolygiad tair blynedd.

Fel sy'n ofynnol yn Safon 110, mae amserlen o dargedau ar gael isod gyda phob thema yn cynnwys ei thabl ei hun.

### **Methodoleg**

Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn defnyddio dull ymchwil cymysg i gasglu data a'i ddadansoddi wrth benderfynu pa adran i ganolbwyntio arni am y ddwy flynedd gyntaf (cyn ei chyflwyno ymhellach). Bydd yn:

- Meintiol: Ffurflen Microsoft (bydd hyn yn casglu data ar nifer y rolau, siaradwyr Cymraeg yn yr adran, nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cyrchu gwasanaethau, nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cyrchu gwasanaethau Cymraeg ac ati.)
- Ansoddol: Cyfweiliadau lled-strwythuredig (gyda'r unigolyn mwyaf profiadol sydd ar gael i drafod y llwyth gwaith presennol, profiadau gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg, teimladau tuag at ffocws Safon 110 arnynt ac ati.)

O'r data a gesglir, bydd yr adran ffocws gyntaf yn cael ei dewis a'r cynllun yn cael ei dreialu cyn cael ei gyflwyno ymhellach.

**Thema 1: Recriwtio ac Uwchsgilio Staff Presennol, a Staff Newydd**

	<b>Cam gweithredu</b>	<b>Dull Mesur Canlyniadau</b>	<b>Cwblhawyd erbyn Blwyddyn (1 i 5)</b>	<b>Risgiau</b>
<b>1A</b>	<b>Cynnal Cymwyseddau Cymraeg ESR staff yr Adran a chyrсияu ESR uwchlaw 95%</b>	<b>Cynhyrchu adroddiadau Deallusrwydd Busnes misol yn benodol i'r adran  Gofyn i ddechreuwy'r newydd am eu cymwyseddau a gofyn i'r Uned Iaith Gymraeg eu diweddarau</b>	<b>1</b>	<b>Mae trosiant staff yn golygu ei bod hi'n anodd cyflawni a/neu gynnal cydymffurfiaeth o 95%</b>
<b>1B</b>	<b>Hyrwyddo cyrsiau dysgu Cymraeg ac annog staff i gofrestru ar eu cyfer</b>	<b>Cynnydd yn nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn rhad am ddim</b>	<b>2</b>	<b>Dim cyfranogiad mewn cyrsiau</b>
<b>1C</b>	<b>Sicrhau bod rheolwyr adrannau/gwasanaethau yn ymwybodol o alluoedd staff presennol</b>	<b>Diweddarau'r rhestr fewnol o siaradwyr Cymraeg yr adran yn fisol  Anfon gwybodaeth staff yn fisol</b>	<b>2</b>	<b>Staff ddim yn cael eu dyrannu i Ddefnyddwyr Gwasanaeth priodol o ran iaith</b>
<b>1D</b>	<b>Enwebu Hyrwyddw(y)r y Gymraeg yn yr Adran</b>	<b>Hyrwyddwr i fynychu cyfarfodydd chwarterol Grŵp Strategol y Gymraeg i</b>	<b>2</b>	<b>Y rôl yn dod yn ail i'r cyfrifoldebau clinigol.</b>

		roi'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau'r adran.		
1E	Creu a darparu cyrsiau ymwybyddiaeth Cymraeg pwrpasol i'r holl staff, yn ogystal â dechreuwyr newydd bob chwarter	Yr Uned Iaith Gymraeg i ymchwilio a chynhyrchu sesiwn ymwybyddiaeth benodol i'r adran yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr iaith	2	Mae gan yr Uned Iaith Gymraeg gapasiti cyfyngedig i ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth  Anodd mesur effeithiolrwydd y cyrsiau
1F	Sicrhau bod cyfleoedd profiad gwaith gydag arbenigwyr cymwys ar gael yn Gymraeg i ddarpar fyfyrwyr	Yr Adran i gysylltu ag Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod cyfeiriadur profiad gwaith yn cael ei ddiweddarau a bod cyfleoedd yn Gymraeg yn cael eu nodi.	3	Myfyrwyr ddim yn meddwl bod eu sgiliau Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle  Dim staff ar gael i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith mewn iaith benodol
1G	Cynyddu nifer y staff clinigol sy'n siarad Cymraeg (L3+ ar y matrices iaith mewnol) yn yr adran	Monitro'r holl swyddi a hysbysebwr yn yr adran  Sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol yn cael eu cyfieithu  Sicrhau bod sgiliau Cymraeg ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn ystod y broses o greu rhestr fer	5	Methiant i recriwtio mwy o staff  Dim swyddi gwag yn dod ar gael

Thema 2: Defnydd effeithlon, a rhwyddineb mynediad at dechnoleg, systemau a data

	Cam gweithredu	Dull Mesur Canlyniadau	Cwblhawyd erbyn Blwyddyn (1 i 5)	Risgiau
2A	Mae gan bob aelod o staff fynediad at feddalwedd ac offer gwirio sillafu perthnasol yn Gymraeg (Pecyn Microsoft, Cysill ac ati)	Cysylltu'r adran â TG i sicrhau bod pecyn Microsoft yn cael ei lawrlwytho ar ddyfeisiau'r adran  Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn creu tudalen ar y fewnrwyd lle mae'r holl becynnau meddalwedd ar gael	1	Anogir staff i gyfieithu ond gall darnau heb eu prawfddarllen sy'n cael eu cyhoeddi ar-lein olygu nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau Cyfieithu
2B	Asesu adnoddau adrannol ar hap i sicrhau cywirdeb ac argaeledd fersiynau Cymraeg	Yr Uned Iaith Gymraeg yn cynnal asesiadau ar hap misol ac yn cadw cofnod ohonynt	1	Gall asesu ar hap amlygu bylchau mewn cywirdeb ac argaeledd mewn dogfennau Cymraeg a all arwain at gynnydd yng nghost cyfieithu a mynd y tu hwnt i'r capasiti presennol.

2C	<p>Rhaid cyfieithu pob dogfen newydd i'r Gymraeg cyn iddi gael ei chyhoeddi i'r cyhoedd</p>	<p>Rhaid gwirio rhestr wirio ar gyfer pob dogfen adrannol newydd cyn iddi gael ei chyhoeddi, a fydd yn cynnwys a yw'r ddogfen wedi'i chyfieithu</p>	2	<p>Bydd cynnydd mewn ceisiadau cyfieithu yn arwain at gynnydd yn y gost cyfieithu os yw'r capasiti mewnol ar gyfer cyfieithu eisoes ar ei uchafswm.</p>
2D	<p>Cofnodi dewis iaith y defnyddwyr gwasanaeth</p>	<p>Cofnodi dewis iaith pob defnyddiwr gwasanaeth newydd ar ei gofnod iechyd</p> <p>Dylid gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol am eu dewis iaith y tro nesaf y cysylltir â nhw a dylid diweddarau'r cofnod</p>	3	<p>Cwmpas y gwaith yn enfawr</p> <p>Dim mecanwaith syml i gofnodi dewis iaith yn ôl-weithredol</p> <p>Rhaid sicrhau bod y dewis iaith a gofnodwyd yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon wrth restru staff ar gyfer gwasanaethau</p>
2E	<p>Datblygu/cyfieithu adnodd asesu Cymraeg i'w ddefnyddio</p>	<p>Naill ai cyfieithu pecyn cymorth asesu penodol i'r adran o becyn cymorth presennol, neu ddatblygu pecyn cymorth pwrpasol iaith-benodol gan ddefnyddio arbenigedd penodol i'r gwasanaeth</p>	3	<p>Staff hyderus sy'n siarad Cymraeg ddim ar gael i wneud y defnydd gorau o'r pecyn cymorth ar gyfer asesiad priodol</p>

2F	<p>Rheolwyr recriwtio adrannol i gael hyfforddiant ar ddefnyddio meddalwedd sy'n cynghori ar anghenion gallu siarad Cymraeg y swyddi a hysbysebir</p>	<p>Yr Uned Iaith Gymraeg i hwyluso hyfforddiant ar ddefnyddio pecyn meddalwedd</p> <p>Pob rôl i gyfleu'r gallu presennol i ddarparu gwasanaethau, wedi'i atgyfnerthu gan yr adroddiadau deallusrwydd busnes</p>	3	<p>Nid yw'r feddalwedd yn cael ei defnyddio'n effeithiol</p> <p>Anwybyddir canlyniadau'r feddalwedd</p>
----	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---	---------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Thema 3: 'Normaleiddio' Cymraeg i staff a defnyddwyr gwasanaeth**

	Cam gweithredu	Dull Mesur Canlyniadau	Cwblhawyd erbyn Blwyddyn (1 i 5)	Risgiau
3A	<p>Siaradwyr Cymraeg hyderus i gael bathodyn Cymraeg Gwaith</p>	<p>Gofyn i ddechreuwyr newydd a hoffent dderbyn marcwyr gweledol yn Gymraeg yn ystod y cyfnod cynefino, fel y'i hwylusir gan reolwyr llinell</p> <p>Gofyn i siaradwyr presennol a hoffent dderbyn marcwyr gweledol</p>	1	<p>Mae angen dod o hyd i adnoddau</p> <p>Dim mynediad rhwydd i staff</p> <p>Efallai na fydd staff yn teimlo'n gyfforddus yn gwisgo bathodyn</p>

		<b>a bydd hynny'n amlwg o adroddiadau deallusrwydd busnes.</b>		
<b>3B</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg hyderus i gael laniard Cymraeg Gwaith</b>	<b>Fel yr uchod</b>	<b>1</b>	<b>Fel yr uchod</b>
<b>3C</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg newydd i gael laniard i ddangos eu bod yn dysgu Cymraeg</b>	<b>Fel yr uchod</b>	<b>1</b>	<b>Fel yr uchod</b>
<b>3D</b>	<b>Cardiau ar laniard gydag ymadroddion sylfaenol yn Gymraeg arnynt i'w rhoi i unrhyw un sydd eu heisiau</b>	<b>Sicrhau bod stoc ar gael yn rhwydd pan fydd staff yn holi  Rheolwyr adrannau i dderbyn stoc i roi i staff</b>	<b>1</b>	<b>Ni chaniateir i staff wisgo laniardau gwddf oherwydd rheoli heintiau  Rhwyddineb mynediad at adnoddau i staff</b>
<b>3E</b>	<b>Swigen 'Cymraeg' i'w harddangos ym mhob derbynfa</b>	<b>Yr Uned Iaith Gymraeg i gynhyrchu poster swigod 'Cymraeg'  Sesiynau crwydro i'w cynnal bob 6 mis gan yr Uned Iaith Gymraeg i sicrhau bod posteri'n cael eu harddangos a sicrhau bod staff yn deall pam eu bod nhw yno</b>	<b>1</b>	<b>Mae newid cyson yn edrychiad ardal y dderbynfa yn golygu bod y 'swigen' yn cael ei thynnu  Dim staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg os bydd y cyhoedd yn cysylltu â nhw</b>

3F	<p>Cardiau pabell (tent cards) gydag ymadroddion Cymraeg arnynt i'w harddangos ym mhob derbynfa ar gyfer staff</p>	<p>Sicrhau bod stoc ar gael ym mhob derbynfa adrannol</p> <p>Sesiynau crwydro i'w cynnal bob 6 mis gan yr Uned Iaith Gymraeg i sicrhau bod y cardiau ymadroddion ar gael ac yn cael eu defnyddio</p>	1	<p>Cardiau pabell yn cael eu taflu</p> <p>Staff ddim yn hyderus yn defnyddio'r ymadroddion</p>
3G	<p>Datblygu cofrestr o siaradwyr newydd i sicrhau parhad dysgu a darparu llwybrau pellach</p>	<p>Yr Uned Iaith Gymraeg i gadw cofrestr o siaradwyr newydd, gyda'r holl wybodaeth berthnasol (manyion cyswllt, lefel gyfredol, cwrs cyfredol ac ati) a chynnal sesiynau gwirio gyda staff i fonitro cynnydd a chynnig cefnogaeth.</p>	2	<p>Bydd angen i staff hysbysu'r Uned Iaith Gymraeg am gynnydd</p> <p>Staff yn colli momentwm, neu unrhyw broblemau eraill, wrth ddysgu gan arwain at ddiffyg cynnydd</p>
3H	<p>Taflenni Gwybodaeth i Gleifion ar gael yn rhwydd yn Gymraeg</p>	<p>Rheolwyr adrannau i gadarnhau bod pob Taflen Wybodaeth i Gleifion ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Cyfeiriadur o daflenni i'w cynhyrchu</p> <p>Unrhyw daflenni newydd, neu wedi'u diweddarau, i'w hanfon at yr</p>	2	<p>Yr adran ddim yn anfon y copi Cymraeg i'w ddiweddarau os yw'r copi Saesneg cyfatebol wedi newid</p> <p>Staff ddim yn ymwybodol ble cedwir y copïau Cymraeg</p>

		<b>Uned iaith Gymraeg i'w cyfieithu a diweddarau'r cyfeiriadur.</b>		<b>Staff ddim yn gofyn i'r cyhoedd ym mha iaith yr hoffent i'r ddogfen fod</b>
<b>3I</b>	<b>Dogfennaeth i fod ar gael yn rhwydd yn Gymraeg (h.y. ffurflenni)</b>	<b>Fel yr uchod</b>	<b>2</b>	<b>Fel yr uchod</b>
<b>3J</b>	<b>Nodyn ar y cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd i'w hatgoffa o'u hawl i wasanaeth(au) yn Gymraeg</b>	<b>Tîm cyfathrebu i gynnal ymgyrchoedd bob 6 mis yn atgoffa'r cyhoedd o'u hawl i wasanaethau yn Gymraeg</b>	<b>2</b>	<b>Ymateb negyddol gan y cyhoedd i bost sy'n tynnu sylw at yr hawl  Mae'r neges yn cael ei cholli yn nifer y postïadau sy'n cael eu cyhoeddi bob dydd.</b>
<b>3K</b>	<b>Cynhyrchu cynnwys gyda defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg ynghylch manteision gwasanaeth yn Gymraeg</b>	<b>Cynnwys wedi'i greu a'i rannu</b>	<b>3</b>	<b>Dim ymatebwyr i gymryd rhan mewn creu cynnwys</b>
<b>3L</b>	<b>Cynnig Rhagweithiol i'w ddarparu i bob defnyddiwr gwasanaeth (drwy gydol y broses er mwyn sicrhau ymgynghori)</b>	<b>Cwrs Ymwybyddiaeth Cymraeg wedi'i gwblhau gan 90% o'r holl staff a 90% o arbenigwyr</b>	<b>5</b>	<b>Staff ddim yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol  Ni ellir gweithredu Cynnig Rhagweithiol oherwydd diffyg staff sy'n siarad Cymraeg.</b>

		<b>Cwrs ymwybyddiaeth pwrpasol wedi'i gyflwyno i'r holl staff</b>		
--	--	-----------------------------------------------------------------------	--	--